# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar yr 13eg o Orffennaf 2022 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Wyn Jones, Gerallt Davies, Ruby Williams a Carys Morgan.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Garym Roberts, Wyn Evans a Jocelyn Andrew.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Mehefin a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Derbyniwyd ebost oddiwrth Arwyn a Heledd ar ran pentrefwyr Derwen Gam yn dweud yr hoffen olau ychwanegol yn y pentref, ar ol trafodaeth penderfynwyd ofyn i'r Cynghorydd Carys Morgan ofyn i'r pwyllgor faint o gyfraniad y fyddent yn barod i roi tuag ato.

Roedd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies wedi bod mewn cyfarfod gyda Elin Jones yr Aelod o'r Senedd a Ben Lake yr Aelod Seneddol, a roeddent yn gefnogol iawn o'r syniad i symud y safle bws o du blaen

Eglwys Henfynyw i'r gulfan yn groes y gefnffordd, ar ol y cyfarfod derbyniodd ein Cynghorydd Sirol lythyr oddiwrth Rheolwr Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi rhesymau yn erbyn y syniad, mae'r Cynghorydd Sirol Marc Davies yn mynd i gyfarfodydd eraill ym Mis Medi sydd yn glwm a'r mater gan obeithio i bethau symud mlan.

**Mater cynllunio:**
A210798 – Datblygiad preswyl ym Maes Moelfryn, Ffos-y-ffin. Hysbysir fod apel wedi ei gyflwyno gan Mr Maskell yn erbyn y penderfyniad i wrthod caniatad cynllunio ar gyfer y bwriad uchod.

**Cyfethol Cynghorydd Newydd:**
Derbyniwyd un cais i gael Cynghorydd Newydd i lanw'r sedd wag ar ein pwyllgor. Hywel Lloyd oedd yr ymgeisydd a chafodd ei basio'n unfrydol i'w ethol.

**Unrhyw fater arall:**
Soniodd y Cynghorydd Carys Morgan fod Catrin Evans, Cwmsaeson wedi trefnu a llwyddo i ddisgyblion Ysgol Gyfun Aberaeron i beintio pedwar llun ar bren i hybu a chroesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Geredigion ym Mis Awst. Penderfynwyd i'r clerc ddanfon lythyr o ddiolch i Catrin am ei gwaith arbennig.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 14eg o Fedi.